

**COFNODION DEG FED CYFARFOD AR HUGAIN
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG**

DYDDIAD: 7 Awst 2023

LLEOLIAD: Microsoft Teams

Yn bresennol:

Aelodau:

Nicola Stubbins (<i>Cadeirydd Dros Dro</i>)	Bethan Thomas
Kathryn Robson	Rosemary Jones
David Williams	Kelly Edwards
Geraint Williams	Gwawr Taylor
Jane Jenkins	Theresa Evans-Rickards

Swyddogion:

Elizabeth Brimble	<i>Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer</i>
Lisa Winstone	<i>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol</i>
Beverley Curtis	<i>Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (cofnodion)</i>

Ymddiheuriadau:

Eithne Hughes	<i>Cadeirydd</i>
Hayden Llewellyn	<i>Prif Weithredwr</i>
Sue Walker	

1. Croeso a materion rhagarweiniol

- 1.1 Rhoddodd Nicola Stubbins (*Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio*) wybod i aelodau y byddai hi'n cadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb Eithne Hughes (*Cadeirydd y Cyngor*). Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Sue Walker a Hayden Llewellyn (*Prif Weithredwr*) a oedd ar gyfnod o absenoldeb salwch ar hyn o bryd. Roedd Liz Brimble (*Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer*) yn bresennol a hithau'n Ddirprwy Brif Weithredwr CGA.
- 1.2 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r swyddogion i ddegfed cyfarfod ar hugain Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a diolchodd i'r Cyngor am gynnull y cyfarfod arbennig yn sgil oedi cenedlaethol o ran cynnal archwiliadau blynyddol yn dilyn cyflwyno safon archwilio newydd.
- 1.3 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Cofnodion drafft Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2023

- 2.1 Arweiniodd y Cadeirydd yr aelodau drwy gofnodion cyfarfod blaenorol y Cyngor ar 6 Gorffennaf 2023 a gofynnodd i'r aelodau eu cymeradwyo fel cofnod cywir o drafodaethau.
- 2.2 Cadarnhaodd y Cyngor y cofnodion.

3. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2022-23 ac adroddiad ISA 260 CGA 44/23

- 3.1 Cyflwynodd Lisa Winstone (*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol*) yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, a'r adroddiad ISA 260 atodol a gynhodd yr archwiliad o'r Cyfrifon drafft.
- 3.2 Nododd fod y Pwyllgor Gweithredol wedi argymhell yr adroddiad perfformiad blynyddol drafft i'r Cyngor ei gymeradwyo ar ôl ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 23 Mai 2023. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu wedi trafod a chraffu ar y Cyfrifon blynyddol drafft yn eu cyfarfod ag agenda un eitem ar 4 Awst 2023. Roedd y Pwyllgor wedyn wedi argymhell yr Adroddiad i'r Cyngor ei gymeradwyo.
- 3.3 Gan gyfeirio at y Datganiadau Ariannol ar dudalen 71, nododd fod y Cyfrifon wedi adrodd gwarged o £247,000 yn groes i'r diffyg disgwylidig yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Esboniodd Lisa Winstone y tri phrif faes a gyfrannodd at ganlyniad y gwarged, fel y'u trafodwyd yn flaenorol yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu.
- 3.4 Roedd yr archwiliad wedi nodi tri chywiriad a ddatryswyd adeg cwblhau'r archwiliad, fel yr amlinellwyd yn Atodiad 3 adroddiad ISA 260. Adroddodd Lisa Winstone fod Archwilio Cymru wedi dod i farn archwilio ddiamod, gan osod lefel perthnasedd sicrwydd yn 2%.
- 3.5 Esboniwyd y byddai'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor, yn cael eu llofnodi gan y Prif Weithredwr a'u cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 8 Awst 2023 i'w llofnodi. Yna, byddent yn cael eu gosod gerbron y Senedd erbyn 31 Awst 2023 yn unol â dyletswydd ddeddfwriaethol y Cyngor ac, wedyn, eu cyhoeddi ar wefan CGA.
- 3.6 Ochr yn ochr â'r Prif Weithredwr, byddai llofnod Cadeirydd y Cyngor yn cael ei gynnwys hefyd yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a gyflwynir. Oherwydd absenoldeb y Cadeirydd o'r cyfarfod oherwydd salwch, gofynnodd Lisa Winstone i aelodau gytuno bod Nicola Stubbins, fel Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio, yn llofnodi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar ran y Cyngor. Cytunodd y Cyngor i'r cynnig hwn.
- 3.7 Nododd Gwawr Taylor (*Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu*) sicrwydd i'r Cyngor fod y Pwyllgor wedi craffu'n drylwyr ar y Cyfrifon yn eu cyfarfod diwethaf ac roedd yn argymhell yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn frwd i'r Cyngor eu cymeradwyo.
- 3.8 Nododd y Cyngor sefyllfa CGA yn gadarnhaol. Nododd aelodau eu bod yn teimlo'n dawel eu meddwl bod prosesau trylwyr ar waith ac estynnwyd llongyfarchiadau i'r swyddogion ar y cyflawniadau a amlinellwyd. Cymeradwyodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2022-23.

4. Unrhyw fater arall

- 4.1 Ni chodwyd unrhyw fater arall a chaewyd y cyfarfod cyhoeddus.

Symudodd y Cyngor i sesiwn breifat